



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

Newidiadau i'r Gyfraith ar Roi Organau yng Nghymru – Taflen Ffeithiau i Weithwyr Iechyd Proffesiynol


Bydd **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013** yn dod i rym yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2015. Mae'n nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sut y bwriedir rhoi cydsyniad yng Nghymru i roi organau a meinweoedd i'w trawsblannu.

Mae rhoi organau'n ddigwyddiad eithaf prin. Mae'n effeithio ar nifer fach o gleifion bob blwyddyn, y rhan fwyaf ohonynt yn marw mewn unedau gofal dwys neu unedau argyfwng. Hyd yn oed os na fyddwch yn dod ar draws materion sy'n ymwneud â rhoi organau yn uniongyrchol yn eich gwaith, neu efallai nad ydych hyd yn oed yn gweithio yng Nghymru, rydyn ni'n anfon y daflen ffeithiau hon at weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r ddeddf newydd yn creu dau fath newydd o gydsyniad cyfreithiol i roi organau a meinweoedd yng Nghymru – sef **cydsyniad datganedig** a chydsyniad tybiedig. Bydd cydsyniad tybiedig (cyfeirir ato yn y Ddeddf fel sefyllfa "lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi", ac weithiau cyfeirir ato fel system "optio allan") ond yn cael ei ddefnyddio ond mewn achos rhodd gan berson marw a dim ond os yw'r person wedi byw a marw yng Nghymru.

Oni fydd person wedi cymryd y cam pendant o gofnodi nad yw am fod yn rhoddwr organau wedi iddo farw, yna ystyrir nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i roi organau ac ystyrir bod caniatâd wedi'i roi. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn tua 15 yn fwy o bobl yn rhoi eu horganau bob blwyddyn yng Nghymru.

Bydd gan **bobl sy'n byw yng Nghymru** y dewisiadau canlynol:



Bydd cydsyniad tybiedig **yn gymwys** i bobl sydd:

- dros 18 oed;
- wedi byw (**yn preswyllo fel arfer**) yng Nghymru am gyfnod o 12 mis neu fwy;
- heb fynegi na chofnodi penderfyniad i roi organau, ac
- yn marw yng Nghymru.

Mae **preswyllo fel arfer** yn golygu byw yng Nghymru, yn wirfoddol ac am gyfnod sefydlog; yn fyr, byddai'r person wedi ystyried Cymru'n gartref iddo ar yr adeg pan fu farw. Nid yw rhywun sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn cynnwys carcharorion neu bobl eraill nad ydynt yn byw yng Nghymru'n wirfoddol, fel aelodau o'r lluoedd arfog. Gall pobl sy'n astudio neu'n gweithio yng Nghymru am gyfnod sefydlog fod yn rhywun sy'n preswyllo yma fel arfer a byddai hyn yn cael ei benderfynu mewn trafodaeth â'i deulu.

Ni fydd cydsyniad tybiedig **yn gymwys** mewn unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn:

- i berson sydd eisoes wedi rhoi cydsyniad datganedig ei hunan gan ddweud ei fod yn dymuno bod yn rhoddwr (optio i mewn);
- i berson sydd eisoes wedi datgan nad oedd yn dymuno bod yn rhoddwr (optio allan);
- i berson sydd wedi penodi cynrychiolydd i wneud penderfyniad drosto ynghylch cydsynio;
- i rywun sydd dan 18 oed;
- i berson nad oedd ganddo'r gallu i ddeall am o leiaf 12 mis cyn marw y gallai cydsyniad fod yn dybiedig;
- i berson sy'n byw yng Nghymru ond wedi marw mewn rhan arall o'r DU;
- i berson sydd ar ymweliad â Chymru;
- os yw ffrindiau neu berthnasau'n gallu dangos nad oedd y person yn dymuno bod yn rhoddwr;
- i ffurfiau "newydd" o drawsblannu, fel y'u gelwir, fel trawsblaniadau i'r wyneb, y fraich neu'r goes, neu'r defnydd o feinweoedd atgenhedlu; ac
- i drawsblaniad gan roddwr byw, lle mae angen caniatâd y rhoddwr.

Yn ymarferol, bydd un gofrestr ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn cofnodi penderfyniad i roi organau (optio i mewn), i beidio â bod yn rhoddwr organau (optio allan) neu i benodi cynrychiolydd. Gall pobl sydd eisoes ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG ddewis gadael eu penderfyniad fel y mae. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws y DU sy'n ymwneud â rhoddwyr organau potensial yn gallu gweld y gofrestr hon.

Os yw person yn **marw mewn ysbyty yng Nghymru** ac mewn sefyllfa i roi organau, bydd y Nyrs Arbenigol mewn Rhoi Organau (SN-OD)¹ yn edrych ar y gofrestr i weld a yw'r person wedi cofnodi penderfyniad am roi organau/meinweoedd. Unwaith y bydd y sefyllfa'n glir, yna gall sgwrs am roi organau ddigwydd gyda'r teulu. Os nad yw'r person wedi cofnodi penderfyniad, bydd y SN-OD yn ceisio sefydlu a oedd y person wedi penodi cynrychiolydd ar lafar. Os nad yw hynny'n hysbys yna rhaid i'r SN-OD sefydlu a oedd y person yn byw yng Nghymru, nad oedd ganddo broblemau o ran galluedd a'i fod dros 18 oed cyn trafod cydsyniad tybiedig gyda'r teulu. Os nad oedd y person yn byw yng Nghymru neu os penderfynir nad oedd ganddo'r galluedd, yna ni all cydsyniad tybiedig fod yn gymwys a rhaid cael cydsyniad aelodau'r teulu cyn y gellir bwrw ymlaen â rhoi organau.

Os yw person yn **marw mewn ysbyty mewn rhan arall o'r DU** ac mewn sefyllfa i roi organau, bydd y Nyrs Arbenigol mewn Rhoi Organau (SN-OD) yn edrych ar y rhestr ac yn rhoi gwybod i'r teulu os yw'r ymadawedig wedi cofnodi penderfyniad ynghylch rhoi organau/meinweoedd. Os nad yw'r person wedi cofnodi penderfyniad, bydd y SN-OD yn ceisio sefydlu gyda'r teulu a oedd y person wedi penodi cynrychiolydd ar lafar. Os nad yw hynny'n hysbys yna bydd y SN-OD yn trafod rhoi organau/meinweoedd gyda'r teulu ac, os yw'n briodol, yn cael eu cydsyniad (neu awdurdodiad, yn yr Alban). Ni ellir ystyried cydsyniad yr ymadawedig y tu allan i Gymru, hyd yn oed os oedd y person fel rheol yn byw yng Nghymru.

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

- Bydd y ddeddf newydd ar gydsyniad tybiedig yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015.
- Bydd yn berthnasol i Gymru yn unig.
- Ni all cydsyniad tybiedig fod yn gymwys i bobl o Gymru sy'n marw y tu allan i Gymru.
- Ni all cydsyniad tybiedig fod yn gymwys i bobl sy'n marw yng Nghymru ond sydd fel rheol yn byw mewn man arall.
- Bydd Cofrestr Rhoi Organau newydd y GIG gyfer y DU gyfan ar gael o fis Mehefin 2015 i gofnodi penderfyniadau i fod yn rhoddwr neu i beidio â bod yn rhoddwr.
- Bydd staff sy'n ymwneud â rhoi organau ar draws y DU yn gallu gweld y gofrestr newydd.
- Bydd manylion y bobl sydd ar Gofrestr Rhoi Organau bresennol y GIG yn dal i fod ar y gofrestr newydd, oni fyddant yn penderfynu newid eu meddwl.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael:

- Ar wefan Rhoi Organau Llywodraeth Cymru www.rhoiorganau.org.
- Yng Nghod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar y gyfraith newydd www.hta.gov.uk/publications/sectorspecificpublications.cfm.
- Drwy siarad â Nyrs Arbenigol mewn Rhoi Organau yn eich sefydliad chi.

¹ Y person sy'n delio â'r teulu fel arfer yw'r SN-OD ond gallai fod yn glinigwr gofal dwys neu glinigwr yn yr adran argyfwng. Mae hyn yn berthnasol i bob cyfeiriad a wneir at "SN-OD" yn y ddogfen.



Changes in the Law for Organ Donation in Wales – Factsheet for Health Professionals


The **Human Transplantation (Wales) Act 2013** will come into force in Wales on 1 December 2015. It sets out the legal framework for how consent is to be given in Wales for the donation of organs and tissues for transplantation.

Organ donation is a relatively rare event, affecting a small number of patients each year, mostly those who die in intensive care or emergency units. Even though you may not directly come across organ donation issues within your own work, or may not even work in Wales itself, we are sending this factsheet to health professionals in Wales and beyond.

The new law creates two new types of legal consent for the donation of organs and tissues in Wales – these are **express consent** and **deemed consent**. Deemed consent (sometimes known as a presumed consent or an “opt out” system) will only apply to deceased donation and only if the person both lived and died in Wales.

Deemed consent means that unless a person has taken the deliberate step of recording that they do not want to be an organ donor after death, then they will be regarded as having no objection to organ donation and their consent will be deemed to have been given. The Welsh Government believes this will increase the organ donation rate by around 15 extra donors each year in Wales.

People living in Wales will have the following choices:



Deemed consent **will apply** to people who:

- are over the age of 18;
- have lived in Wales (**ordinarily resident**) for 12 months or more;
- have not expressed or recorded an organ donation decision; and
- die in Wales.

Ordinarily resident means living in Wales, voluntarily and for a settled period; in short, the person would have considered Wales to be their home at the time they died. Ordinarily resident does not include prisoners or other people not living in Wales voluntarily, such as members of the armed forces. People studying or working in Wales for a settled period may be ordinarily resident and this would be decided in discussion with their families.

Deemed consent **will not apply** in any of the following circumstances:

- to people who have already given express consent themselves by saying they wanted to be a donor (opted in);
- to people who have already stated they did not want to be an organ donor (opted out);
- to people who have appointed a representative to make a decision about consent for them;
- to people who are under 18 years;
- to people who lacked capacity for at least 12 months before dying to understand that consent could be deemed;
- to people who live in Wales but die in another part of the UK;
- to people who are just visiting Wales;
- if friends or relatives can show the person did not want to be a donor;
- to so-called "novel" forms of transplantation such as face or limb transplants or the use of reproductive tissues; and
- to living donation, where the consent of the donor is needed.

In practice, there will be one single register for the whole of the UK which will record a decision to donate organs (opt in), not to be an organ donor (opt out) or appoint a representative. People who are already on the NHS Organ Donor Register can choose to leave their decision as it is. This register will be viewable to healthcare professionals across the UK involved in potential organ donation.

If a person **dies in a Welsh hospital** and is in a position to donate, the Specialist Nurse for Organ Donation (SN-OD)¹ will check the register to see if the person has recorded a decision about organ/tissue donation. Once the position is established a conversation about donation can then take place with the family. If the person has not recorded a decision, the SN-OD will seek to establish whether the person had verbally appointed a representative. If none is known then the SN-OD must establish if the person lived in Wales, had no capacity issues and was over 18 before discussing deemed consent with the family. If the person did not live in Wales or it is decided they lacked capacity, then deemed consent cannot apply and the consent of the family members must be given before donation can proceed.

If a person **dies in a hospital elsewhere in the UK** and is in a position to donate, the Specialist Nurse for Organ Donation (SN-OD) will check the register and let the family know if the deceased had recorded a decision regarding organ/tissue donation. If the person has not recorded a decision, the SN-OD will establish with the family whether the person had verbally appointed a representative. If none is known then the SN-OD will discuss organ/tissue donation with the family and, if appropriate obtain their consent (or authorisation, if in Scotland). The consent of the deceased person cannot be deemed outside Wales, even if the person normally lived in Wales.

Summary of key points:

- The new deemed consent law will come into effect on 1 December 2015.
- It will only apply in Wales.
- Deemed consent cannot apply to Welsh people who die outside Wales.
- Deemed consent cannot apply to people who die in Wales but ordinarily live elsewhere.
- A new NHS Organ Donor Register for the whole of the UK will be available from June 2015 to record decisions to be a donor or not to be a donor.
- The new register will be viewable by staff involved in organ donation across the UK.
- The details of people who are on the current NHS Organ Donor Register will still be on the new register, unless they decide to change their mind.

More information can be found:

- On the Welsh Government's Organ Donation website www.OrganDonationWales.org.
- In the Human Tissue Authority Code of Practice on the new law www.hta.gov.uk/publications/sectorspecificpublications.cfm.
- By speaking to the Specialist Nurse for Organ Donation in your organisation.

¹ The person approaching a family is usually a SN-OD but could be an intensive care or emergency department clinician. This applies to all references made to "SN-OD" in the document.